COFNODION CYFARFOD Y FFORWM CYNGHORAU TREF A CHYMUNED A GYNHALIWYD O BELL - TRWY MICROSOFT TEAMS DDYDD LLUN, 29 GORFFENNAF 2024 AM 16:00

Yn Bresennol

Y Cynghorydd JC Spanswick – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| Beedle | H T Bennett | S J Bletsoe | C Davies |
| P Edwards | RM Granville | P W Jenkins | M Jones |
| S Parker | J Perren | I M Spiller | MJ Williams |
| E D Winstanley | T Wood | | |

N Gwilym
M Thomas
Y Walton-Davies

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

M J Evans

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Oscar Roberts | Prentis Gweinyddu Busnes - Gwasanaethau Democrataidd |
| Zak Shell | Pennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Carys Lord | Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid |
| Alex Rawlin | Rheolwr Perfformiad a Pholisi Corfforaethol |
| Colin Hill | Rheolwr Goleuadau Stryd |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Nimi Chandrasena | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

Datgan Buddiannau

Datganodd y Cynghorydd S Bletsoe fuddiant fel Cynghorydd CBSP a Chyngor Cymuned.
Datganodd y Cynghorydd M Williams fuddiant fel Cynghorydd CBSP a Chyngor Cymuned.

## 31. Cymeradwyo Cofnodion

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11/03/2024 fel cofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 29 Gorffennaf 2024 |

## 32. Diweddariad Cyllideb

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid, Tai a Newid adroddiad a oedd yn diweddaru'r Fforwm ar gyllideb y Cyngor, yn benodol alldro y gyllideb refeniw ar gyfer 2023-24, y gyllideb a gymeradwywyd ar gyfer 2024-25 a rhagamcanion cyllidebol yn y dyfodol, pwysau cyllidebol ac amserlenni disgwyliedig.<br><br>Amlygodd feysydd allweddol sefyllfa'r llynedd, yr amcanestyniadau sy'n arwain at eleni a'r SATC yn arwain at 2027-28. Nodwyd y rhain yn fanwl yn adran 3 yr adroddiad.<br><br>Dywedodd yr Arweinydd y byddai uwchgynhadledd o'r holl Gynghorau Tref a Chymuned ym mis Medi eleni i drafod sut mae'r Cyngor a'r Cynghorau Tref a Chymuned yn gallu cefnogi ei gilydd.<br><br>Gofynnodd Aelod sut y gellid taro cydbwysedd i sicrhau proses deg ynglŷn â'r cynllun Shopmobility a sut y gweinyddwyd hyn, gan y byddai pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn bennaf nad ydynt yn byw yn nhref Pen-y-bont ar Ogwr, a phobl sy'n talu am y gwasanaeth sy'n byw yn nhref Pen-y-bont ar Ogwr. Dywedodd yr Arweinydd mai penderfyniad SATC oedd gohirio'r gwaith a wneir ar gyfer Shopmobility oherwydd y gostyngiad sylweddol yn ei ddefnydd ers iddo gael ei gyflwyno gyntaf. Cynigiwyd cyfle i Gynghorau Tref ymgymryd â'r gwasanaeth a'r offer hwn a byddai CBSP yn edrych ymlaen at weithio gydag unrhyw Gyngor |

| | |
|---|---|
| | Tref a oedd yn dymuno gwneud hyn.<br><br>Cafwyd trafodaethau pellach ynghylch y berthynas waith â'r Cynghorau Tref a Chymuned ac arfer gorau ar sut i hyrwyddo'r perthnasoedd hyn. Ychwanegodd y Prif Weithredwr y byddai'r trafodaethau hyn o fudd i'w cael yn yr uwchgynhadledd ym mis Medi.<br><br>PENDERFYNWYD: bod y Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned yn nodi'r wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa gyllideb y Cyngor.<br><br>Trafododd y Fforwm sut y gallai'r Cyngor weithio gyda'r Cynghorau Tref a Chymuned a cheisio cymryd rhan mewn trafodaethau pellach yn yr uwchgynhadledd ym mis Medi. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 29 Gorffennaf 2024 |

## 33. Colofnau Goleuadau Stryd

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau adroddiad a oedd yn amlinellu'r ddau fath cyffredin o golofnau goleuadau stryd sy'n cael eu defnyddio o fewn y fwrdeistref sirol i'r Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned.<br><br>Eglurodd fod dau fath o golofnau yn cael eu defnyddio yn y Fwrdeistref; Alwminiwm a Dur. Amlygwyd manylion y ddau fath a'r rhesymau dros eu defnyddiau yn y cefndir yn adran 2 yr adroddiad.<br><br>Oherwydd cost uwch colofnau alwminiwm, roedd CBSP yn cynnig newid pob colofn alwminiwm ledled y Fwrdeistref i golofnau dur, oni bai bod deddfwriaeth yn gwahardd hyn. Fodd bynnag, gydag alwminiwm yn wannach na dur, byddai angen rheoli unrhyw ddrilio neu lwytho ar y rhain yn ofalus.<br><br>Dywedodd os yw Cyngor Tref neu Gymuned yn dymuno gwella eu cymuned gydag ychwanegiadau at oleuadau stryd yn eu hardal leol, bydd angen iddynt gysylltu ag Adran Goleuadau Stryd CBSP i sicrhau nad yw'r dull llwytho a chlymu'n mynd i beryglu diogelwch colofn.<br><br>Gofynnodd Aelod faint oedd y gwahaniaeth cost alwminiwm o'i gymharu â dur. Dywedodd y Cyfarwyddwr |

| | |
|---|---|
| | Corfforaethol ei fod ddwywaith y gost.<br><br>Ymhelaethodd gan ddweud bod tua 16,000 o golofnau goleuo ledled y Fwrdeistref, a nod CBSP oedd newid, lle bo modd, bydd colofnau dur yn cymryd lle'r holl golofnau alwminiwm. Ychwanegodd y Pennaeth Gweithrediadau – Gwasanaethau Cymunedol, o ran datblygwyr ystadau tai newydd, y gofynnir i’r datblygwyr hynny osod colofnau alwminiwm yn bennaf oherwydd budd rhychwant bywyd a'r gost dim ychwanegol i drethdalwyr.<br><br>PENDERFYNWYD: Trafododd y Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned amrywiol bynciau yn ymwneud â dewisiadau colofnau goleuadau stryd ledled y Fwrdeistref a nododd yr adroddiad a'i gynnwys. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 29 Gorffennaf 2024 |

**34. Hunanasesiad 2023/24**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd y Rheolwr Polisi Corfforaethol a Pherfformiad adroddiad a oedd yn gofyn am farn y Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned ar yr hunanasesiad drafft ar gyfer 2023/24.<br><br>Eglurodd mai hwn oedd y trydydd hunanasesiad a'r cyntaf i gynnwys adolygiad o berfformiad yn erbyn Cynllun Corfforaethol 2023-28 newydd y Cyngor.<br><br>Amlygwyd dyfarniadau hunanasesu arfaethedig y Cyngor ar gyfer 2023/24 yn adran 3 yr adroddiad. Atodwyd yr hunanasesiad drafft yn Atodiad 1. Ar ôl ei ystyried yn y Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned, bydd y Cyngor yn trafod y ddogfen ddrafft gyda phartneriaid / awdurdodau lleol eraill yn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC)<br><br>Gwnaeth yr Arweinydd sylw ar 3.3 lle rhestrwyd llawer o'r pwyntiau yn dda. Braf oedd gweld mai hwn oedd y prif ganlyniad o'r blynyddoedd blaenorol, ond mae'n dangos bod meysydd i’w gwella o hyd gyda 2 allan o'r 7 pwynt a restrir yn ddigonol.<br><br>Ailadroddodd Aelod yr angen am well cyfathrebu â CBSP a Chynghorau Tref a Chymuned. Roedd yn credu y gallai hyn wella rhai o'r pwyntiau mewn asesiadau yn y dyfodol. |

| | |
|---|---|
| | PENDERFYNWYD: Gwnaeth y Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned sylwadau o'r dyfarniadau ar gyfer 2023/24 a nododd gynnwys yr adroddiad. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 29 Gorffennaf 2024 |

**35. Eitemau Brys**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Dim |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 29 Gorffennaf 2024 |

I wylio trafodaeth bellach a gynhaliwyd ynghylch yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon

Daeth y cyfarfod i ben am 17:04.